Cenn@d

MEDI 25 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 187

# Dathlu yn Jewin, Llundain



Bu'r penwythnos 7 ac 8 Medi 2024 yn nodedig yn hanes eglwys Jewin, pan ddathlwyd 250 mlynedd ers sefydlu'r achos.

Ar y dydd Sadwrn mwynhawyd te blasus i aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion yr eglwys. Bu'r sgwrsio yn llawen a chafwyd aduniad hyfryd rhwng cynifer.

Dywedwyd y gras gan y Parch. Anthony Williams, cyn-weinidog yr eglwys, ar ôl i'r gweinidog presennol, y Parch. Richard Brunt, estyn croeso i bawb. Siaradwyd gan sawl un, yn cynnwys Llinos Morris, yr ysgrifennydd ffyddlon a gweithgar; Nerys Owen, un o wyresau'r diweddar Barch. D. S. Owen, gweinidog diarbed yr eglwys o 1915 hyd 1959; a'r Tad Christopher Vipers, offeiriad yn Eglwys Gatholig Sant Joseff. Mae'r eglwys hon, ynghyd ag eglwys St Giles, Cripplegate, a Wesley's Chapel yn ffurfio gyda Jewin gylch eciwmenaidd sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i gymdeithasu ac astudio gyda'i gilydd.

Yn dilyn hyn, aethpwyd i'r capel hardd i gyngerdd gan The Joyful Company of Singers. Y mae'r rhain yn un o gorau amatur mwyaf blaengar Prydain ac yn perfformio rhaglen eang o weithiau corawl o'r 16g hyd y presennol. Maent yn difyrru gwrandawyr yn y rhan fwyaf o brif wyliau'r Deyrnas Unedig ac yn perfformio mewn sawl rhaglen i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y BBC) ac ar Classic FM. Oddi ar ei ffurfio yn 1988 bu'r côr ar y brig mewn rhestr go hir o gystadlaethau gwladol a rhyngwladol.

Gwrandawyd ar raglen gyfoethog ganddynt, oedd yn cynnwys darn a gomisiynwyd gan Jewin ar gyfer yr achlysur, ar eiriau gan Iwan Teifion Davies, un o flaenoriaid yr eglwys.

Bore Sul, cynhaliwyd oedfa gyda'r gweinidog yn pregethu. Dechreuwyd drwy ganu emyn 163, 'Cyduned Seion lân', a gyfansoddwyd gan y Parch. James Hughes (Iago Trichrug), gweinidog cyntaf yr eglwys.

Darllenwyd gan Miriam Watling, Swyddog Plant ac Ieuenctid a Galluogwraig Ymestyn Allan yr ofalaeth. Cafwyd cyfarchion o Henaduriaeth Morgannwg/Llundain gan Gareth Ellis, ei Llywydd etholedig,ac arweiniwyd mewn gweddi gan y Parch. Gwylfa Evans, Harrow.

Gwnaed casgliad er budd Cymorth Cristnogol a chyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Ganon Jack Noble, Rheithor St Giles, Cripplegate. Yn ôl pob tystiolaeth, bu'n wasanaeth dwys.

Cyfansoddwyd cyfres o englynion ar gyfer yr achlysur gan y Parch. John Owen, Rhuthun, a oedd yn analluog i fod yn bresennol ond sydd yn ymwelydd â'r eglwys ar y Sul bob blwyddyn. Dyma'i waith meistrolgar:

Harris a ddenodd werin – y ddinas
At ddoniau John Calfin,
Gan ddod â'i fethod a'i fin,
Yn wewyr i greu 'Jewin'.

Bu ias y bregeth rasol, – aelodau'r
Seiadu wythnosol,
A'r esgyn fyny'r 'Ysgol'
Â her ffydd yn llorio'r ffôl.

Bu sawl gwron eiconig – yn arwain
Yn heriol frwdfrydig
Er dwyn praidd i goncro dig
Yn adwy'r 'Bendigedig'.

Ysbrydol ei thystiolaeth – a hollol
Bwyllog ei threfniadaeth,
Â'r rhan dda oedd y rhan ddaeth
Yn alwad ei thystiolaeth.

Unwn i chwifio'r faner yn weddus
Mewn dyddiau llawn pryder,
Yn hael fe estynnwn her
Hanes deucant a hanner.

Yna mwynhawyd pryd o fwyd mewn bwyty lleol i gloi penwythnos tra chofiadwy.

Beth am y dyfodol?

Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw?
Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.

*Anthony Williams*

Yr eglwys ddirgel yn Afghanistan
Tudalen 2

Tro i'r Swistir
Tudalen 4

O'r galon
Tudalen 7

# Yr eglwys ddirgel yn Afghanistan




Ym mis Awst dair blynedd yn ôl dychwelodd y Taliban i rym yn Afghanistan. Mae'n rhaid i Gristnogion yn y wlad sicrhau nad yw eu ffydd yn cael ei darganfod gan y bobl anghywir – ond mae eglwys gyfrinachol y wlad yn tyfu.

Ganed Khada* i deulu Mwslimaidd hynod grefyddol. Priododd ag Ehsan* ac roedd eu bywyd yn un hapus. Cyn i'r Taliban ddod i rym, roedd menywod Afghanistan yn aml yn cael swyddi ac roedd Khada'n gweithio mewn swyddfa lle daeth yn agos at ei phennaeth. "Fe ddaethon ni'n ffrindiau, ac roeddwn i'n teimlo'n rhydd o'i blaen hi," meddai Khada. Un diwrnod, gwnaeth pennaeth Khada benderfyniad hynod ddewr a rhoi Beibl i Khada.

Pan gyrhaeddodd Khada adref, dangosodd y Beibl i Ehsan. Doedden nhw ddim wedi darllen y Beibl o'r blaen ond roedden nhw'n chwilfrydig.

"Pan es i â'r llyfr adref a dechrau ei ddarllen gyda fy ngŵr, ar y dechrau daeth llawer o gwestiynau i'n meddyliau," meddai Khada. "Fe wnaethon ni ddatrys y cwestiynau hynny gyda'n gilydd." Yn y diwedd, fe wnaethon nhw benderfyniad dewr, a newid eu bywydau i ddilyn Iesu.

Roedd Khada ac Ehsan yn gwybod bod yn rhaid iddyn nhw gadw eu ffydd newydd yn gyfrinach rhag yr awdurdodau, ond fe benderfynon nhw fentro rhannu'r efengyl gyda'r teulu.

Dechreuon nhw gyda brawd Khada. "Roedd yn bryderus oherwydd diweithdra," meddai Khada. "Gofynnais iddo ddysgu straeon o'r Hen Destament, ac fe ddaeth i gredu. Yn ddiweddarach, rhannais straeon gyda fy nheulu, a daethant i gyd yn gredinwyr! Rhannodd fy ngŵr straeon gyda'i chwaer, a daeth hithau i gredu. Fe wnaethon ni ddal ati i ledaenu ein ffydd."

Roedd y pâr dewr hwn yn gweld eu hymdrechion yn dwyn ffrwyth ond roedd trasiedi rownd y gornel. Un diwrnod, pan oedd Ehsan ar ei ffordd i grŵp Beiblaidd tanddaearol, sylweddolodd fod ei ffydd gyfrinachol wedi'i darganfod.

"Cafodd ei ffôn ei ddiffodd a doedd hi ddim yn canu. Roeddwn i'n meddwl ar y dechrau efallai nad oedd ei ffôn yn gweithio," meddai Khada. "Fe wnes i hefyd alw rhywun o fy nheulu a doedd neb wedi clywed ganddo. Roeddwn i'n teimlo ofn a phob math o feddyliau." Ni chlywodd Khada ddim byd am ddau ddiwrnod, ac yna derbyniodd y newyddion yr oedd wedi bod yn ei ofni: roedd corff marw Ehsan wedi ei ddarganfod. Yr oedd wedi colli ei fywyd dros ei ffydd.

Roedd Khada wedi'i llorio'n llwyr. Roedd hi wedi dysgu am y gost enfawr o ddilyn Iesu ond roedd hi hefyd yn gwybod ei fod yn werth y gost honno. "Rwy'n parhau i fod yn was i Grist, gan ddilyn ei esiampl o ostyngeiddrwydd a mawredd," meddai.

Gweddïwch, os gwelwch yn dda:

- y bydd Duw yn amddiffyn credinwyr Afghanistan, yn eu cryfhau, yn eu cysuro ac yn rhoi gobaith iddynt;
- am ddoethineb a diogelwch i bartneriaid Open Doors sy'n gweithio ymhlith yr eglwys gyfrinachol yn Afghanistan.

** Enwau wedi'u newid am resymau diogelwch*

# Cenhadaeth, y Greadigaeth a Gogoniant Duw

**Paul Smethurst sy'n rhannu'r ffordd y mae'n gweld Duw yn defnyddio'r greadigaeth i ddatgelu ei ogoniant a bod hyn yn rhan annatod o genhadaeth. Mae Paul a'i wraig, Robyn, yn gweinidogaethu ac yn arloesi ym maes cenhadaeth ym Mannau Brycheiniog ar hyn o bryd, ac maent wedi gweld nifer yn cael eu denu'n agosach at ffydd drwy eu hymwneud â harddwch y fro.**

Ysgrifennodd y Salmydd y geiriau, "Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw." Gan ein bod yn byw ym Mannau Brycheiniog, gyda'u statws fel Gwarchodfa Awyr Dywyll, cawsom y fraint o gael seddi yn y rhes flaen i brofi'r realiti yma! Ac wrth wasanaethu yn y gymuned, rydym yn dysgu mor greiddiol genhadol yw datganiad y Salmydd.

Rydym ni'n cael ein hannog yn aml i 'ddarganfod yr hyn y mae Duw yn ei wneud, ac i ymuno gydag Ef yn Ei waith'. Ers i ni gyrraedd yma ym mis Chwefror y llynedd, un o'r pethau rydym ni wedi gweld Duw yn ei wneud yw datgelu rhywbeth o'i ogoniant i bobl drwy'r amgylchfyd naturiol.

Mae'n debyg mai llais tawel y mae rhai yn ei glywed. I eraill, mae ei lais yn cael ei foddi gan leisiau gwahanol. Ond eto, i eraill, yng ngeiriau cofiadwy Francis Schaeffer, mae'n glir 'ei fod yno ac nad yw'n ddistaw'. Felly, wrth weld beth mae Duw wrthi'n ei wneud, newidiodd y cwestiwn i: 'Sut ydyn ni'n ymuno gydag ef yn ei waith?'

Wedi'i guddio yn ochr y bryn ger Penybegwm, ddwy filltir a saith cant o droedfeddi yn uwch na'r pentref agosaf, y mae Capel Pen-yr-heol. Er mor bellennig ydyw, dyma'r lle y daethom ar draws y cyfleoedd gorau i ymuno â Duw yn y rhan hon o'i genhadaeth.

Gyda chefnogaeth Scripture Union Cymru, rydym wedi dechrau grŵp canol wythnos misol i bob oedran o'r enw 'Go Wild!' Mae ethos y clwb yn syml. Gan ddefnyddio amgylchedd hyfryd tir Capel Pen-yr-heol, rydym ni'n treulio amser gyda'n gilydd yn mwynhau ac yn archwilio'r greadigaeth, a hefyd yn dysgu am y Creawdwr.

Ambell fis, byddwch chi'n ein gweld yn adeiladu gwesty chwilod; dro arall, fe fyddwn ni'n darganfod defnydd i frigau a fyddai fel arall yn cael eu diosg a'u gadael. Ym misoedd tywyll y gaeaf, byddwn ni'n dysgu sut i ddarganfod Seren y Gogledd. Ac yna, wrth i ni ddod ynghyd i wneud siocled poeth, byddwn ni'n siarad am yr hyn rydym ni wedi'i weld a'i wneud.

Gyda'r greadigaeth yn gymorth gweledol a straeon y Beibl yn ysgogiad i ni, rydym ni'n annog ein gilydd â chalonnau agored i wrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthyn ni.

Dros y misoedd, mae'n hyfryd gweld ein cymuned yn araf dyfu mewn nifer, mewn chwilfrydedd a dealltwriaeth o'r Newyddion Da.

Mewn ffordd debyg, mae Duw hyd yn oed wedi defnyddio'r fynwent ym Mhen-yr-heol! Mae'r ardaloedd tawel a hynafol hyn wedi eu rhifo ymhlith y cynefinoedd mwyaf bioamrywiol yn ein gwlad.

Wrth gydnabod hyn, mae A Rocha UK, sefydliad cadwraethol Cristnogol, wedi sefydlu wythnos 'Eglwysi'n Cyfri Natur'. Mae'r wythnos yn cael ei chynnal bob mis Mehefin ac yn rhoi cyfle i'r gymuned wneud awdit o fyd natur mynwentydd a thiroedd eglwysi. Ar ôl gwasanaeth i bob oed, aethon ni wedyn i archwilio a gwneud cofnod o'r hyn wnaethom ni ei ddarganfod ym Mhen-yr-heol. Cam bach oedd hwn, a chyfle arall i ofalu am greadigaeth Duw ac amlygu ei ogoniant.

Felly, beth mae Duw yn ei wneud? Dyma gyfieithiad Eugene Peterson o eiriau'r Salmydd, 'God's glory is on tour in the skies'.

Rydym ni wrth ein bodd yn ymuno ag Ef a bod yn *roadies* iddo!

# Cymru Masnach Deg




Eleni, mae Cymru Masnach Deg yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed, a threfnwyd llawer o ddigwyddiadau i nodi hyn. Bu'r eglwysi'n gefnogol iawn i waith y mudiad, ac mae'r Parchg Jeff Williams yn un o'i noddwyr amlycaf.

Thema'r mudiad eleni yw 'Cynrychioli'r Newid', gan sylweddoli y gall pob un ohonom ddylanwadu ar y sefyllfa.

Yn hytrach na chynnal y pythefnos arferol yn y gwanwyn, cynhaliwyd pythefnos o ddigwyddiadau eleni, o'r 9fed hyd y 22ain o Fedi. Gwir dweud bod angen cefnogaeth ar y mudiad drwy'r flwyddyn, ac os bydd eich eglwys neu eich ardal am drefnu rhywbeth unrhyw bryd, yna bydd y swyddfa yn y Deml Heddwch yn ddigon hapus i rannu gwybodaeth a chynnig syniadau i chi.

Dymuniad Cymru Masnach Deg yw meithrin dealltwriaeth o'r amcanion a gweld mwy o grwpiau yn uniaethu â'u nod. Amcan y mudiad yw bod yn gatalydd sy'n gweithio o blaid hyrwyddo, cefnogi a grymuso amaethwyr a chynhyrchwyr mewn gwledydd tlawd, gan gredu bod hawl gan bob amaethwr i gael pris rhesymol a bywoliaeth deg, lle bynnag maent yn byw. Yn 2008 daeth Cymru yn genedl Masnach Deg, y genedl gyntaf yn y byd i wneud hynny.

**Beth allwn ni ei wneud?**
Gallwn gysylltu â'n Haelod Seneddol a'i (g)wahodd i uniaethu â'r mudiad. Byddai deall bod aelodau senedd-dai San Steffan a Chaerdydd yn barod i ddangos eu cefnogaeth yn gam mawr ymlaen.

Beth am neilltuo rhan o oedfa neu gwrdd wythnosol i addysgu pobl am y gwaith, neu ran o gyfarfodydd ar y cyd, yn enwadol neu'n gydenwadol? Byddai cynnal pryd bwyd ar y cyd, gan ddefnyddio bwydydd sy'n cario bathodyn Masnach Deg/Fairtrade yn gam ymlaen, a byddai gwahodd yr Aelod Seneddol yn fodd o ganolbwyntio meddyliau pawb ar y gwaith.

Gellir cysylltu drwy anfon yn uniongyrchol at: Cymru Masnach Deg, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP; ffôn – 07772 032142; e-bost – info@fairtradewales.org.uk.

Beth amdani? Addysgwn ein hunain, a mentro gwneud gwahaniaeth er mwyn eraill a herio tlodi byd-eang.

*Denzil John*

# Tro i'r Swistir I

Mae gwyliau'r haf yn cynnig cyfle i ymweld â lleoedd y clywyd amdanynt lawer gwaith ond heb erioed eu gweld. Felly, yng nghanol Awst 2024 dyma Ann, fy ngwraig, a minnau yn anelu am y tro cyntaf erioed am Zurich yn y Swistir. Yn ogystal ag ymdeimlo â gogoniant y golygfeydd ysblennydd, Llyn Zurich ac aruthredd mynyddoedd yr Alpau, y bwriad oedd dilyn llwybrau Huldrych Zwingli, arweinydd y Diwygiad Protestannaidd yn y ddinas bum can mlynedd yn ôl. A ninnau eisoes wedi'n swyno gan Wittenberg yn yr Almaen, cartref Martin Luther, ac yn weddol gyfarwydd â dinas hardd Genefa, maes llafur John Calvin, y nod bellach oedd ymgyfarwyddo â'r mannau hynny sy'n gysylltiedig â'r lleiaf cyfarwydd o blith y Diwygwyr Protestannaidd, ond un a ddeil yn bwysig yn y stori a'i syniadaeth yn arwyddocaol o hyd.

Mab ffarm o bentref Wildhaus yn nyffryn Toggenberg yng nghanton S. Gallen oedd Huldrych Zwingli (1484–1531), a byddai harddwch syfrdanol yr Alpau ynghyd ag annibyniaeth ysbryd gwerin y Swistir yn gadael ei ôl arno ar hyd ei oes. Cafodd addysg dda, yn gyntaf dan law ei ewythr Bartholomeus, yr offeiriad lleol, yna mewn ysgolion yn ninasoedd Basel a Bern, cyn mynd i'r brifysgol, yn gyntaf yn Vienna ac yna yn ôl yn Basel. Erbyn iddo gael ei ordeinio gan Esgob Constans yn 1506 – blwyddyn ar ôl Martin Luther – roedd yn hyddysg yn y Clasuron a'i ddiddordeb yn fwy mewn llenyddiaeth nag athroniaeth a materion athrawiaethol fel y cyfryw. Maes cyntaf ei weinidogaeth oedd pentref Glarus heb fod ymhell o'i gartref, ac fel gŵr dysgedig, mynnai addysgu ei braidd yn ogystal â'u bugeilio. Dau beth a nodweddodd ei ddeng mlynedd yno. Daeth fwyfwy o dan ddylanwad yr Iseldirwr Desiderius Erasmus, pennaf ysgogwr y Dadeni Dysg, y mudiad i adfer gogoniant y ddysg glasurol i Ogledd Ewrop, ac yna ei waith fel caplan i'r dynion ifainc a oedd yn ymrestru fel milwyr cyflog ym myddin y Pab.



Huldrych Zwingli (Hans Asper, parth cyhoeddus, via Wikimedia Commons)

Parhaodd yn ddiwyd yn ei astudiaethau gan fynnu ymdrwytho yn yr ieithoedd beiblaidd er mwyn deall yr ysgrythur drosto'i hun. Ymgyfarwyddodd â gweithiau'r tadau eglwysig cynnar yn hytrach na bodloni ar y diwinyddion sgolastig swyddogol. Ac yn bennaf oll, gallai fawrygu symlrwydd dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu a'i alwad radical i godi'r groes os am ddilyn y llwybr Cristnogol dilys. Gohebodd yn gyson ag Erasmus a chafodd y fraint o ymweld ag awdur yr *Enchiridion*, ei lawlyfr enwog ar ddisgyblaeth y Cristion, yn ninas Basel yn 1516, blwyddyn cyhoeddi cyfieithiad chwyldroadol yr Iseldirwr o'r Testament Newydd. Law yn llaw â hyn, teimlai ei bod yn ddyletswydd arno ddilyn bechgyn y pentref wrth iddynt ymateb i alwad y Pab i ryfela yn erbyn brenin Ffrainc. Crafu bywoliaeth o'r tir a wnâi trigolion ffederasiwn y Swistir, a gweithredu fel milwyr cyflog oedd unig obaith rhelyw ieuenctid y gwahanol gantonau i ennill cyflog teg. Roedd ganddynt enw neilltuol o fod yn ymladdwyr gwrol, ac fel gwladgarwr eirias, gallai offeiriad ifanc Glarus ymuniaethu â nhw. Fodd bynnag, ac yntau'n dyst i drychineb brwydr Marignano ym Medi 1515 pan laddwyd cynifer â deg mil o'i gyd-wladwyr, fe'i dadrithiwyd yn enbyd, ac wedi dychwelyd adref cododd ei lais yn erbyn yr hyn y deuai i'w ystyried bellach yn fasnach annynol.

Gydag economi'r gymdogaeth yn ddibynnol ar y fasnach hon, collodd ei boblogrwydd, a'r canlyniad oedd iddo orfod cefnu ar ei ddyletswyddau plwyfol. Yn gynnar yn 1516 symudodd i wasanaethu fel *Leutpriester* neu 'offeiriad y bobl' yn yr abaty Benedictaidd yn



Densil ac Ann yn Zurich

Einsiedeln, canton Schwyz, tua phymtheg milltir i ffwrdd. Bu hyn yn ymwared iddo. Roedd y dyletswyddau bugeiliol yn ysgafn, llyfrgell yr abaty yn helaeth a'r amser ganddo bellach i ailafael yn ei astudiaethau. Meistrolodd weithiau Awstin Fawr a Sant Ierôm yn argraffiad newydd Erasmus, ond pwysicach fyth oedd ei ymdrwytho pellach yn y Beibl.

Yn annibynnol ar Luther a heb brofi'r wasgfa eneidiol ddirdynnol yr aeth yr Almaenwr trwyddi tua'r un pryd, daeth i goleddu'r argyhoeddiadau a fyddai'n cael eu hystyried gyda hyn yn 'efengylaidd': ffydd fel ymddiriedaeth bersonol yng Nghrist heb orfod dibynnu ar gyfryngdod offeiriadol; yr Ysgrythur fel yr awdurdod terfynol ym materion crefydd, a thraddodiadau'r eglwys i'w dyfarnu yng ngoleuni'r Beibl yn unig.

Rhoes y gorau i godi ei destunau o'r darlleniadur swyddogol ar y Sul ac aeth ati i bregethu yn uniongyrchol o'r testun beiblaidd gan ddechrau gydag Efengyl Mathew. Roedd yr effaith yn syfrdanol. 'Dechreuais yn 1516 bregethu efengyl Crist,' meddai maes o law, 'cyn i neb glywed sôn am Luther.' Yn wahanol i'r Almaenwr, Erasmus oedd ei feistr, ac er gwaethaf y tensiynau a fyddai'n datblygu rhyngddynt yn ddiweddarach, byddai'n parhau i arddel ei ddyled i'r Iseldirwr ar hyd ei oes.

(i'w barhau)

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

# Cenhadu yng ngogledd-ddwyrain India am 55 mlynedd – cyfraniad unigryw E. H. Williams

Ganwyd Edward Hugh Williams yn 25 Premier Street, Everton, Lerpwl, ar 22 Medi 1865, yn fab i Owen (1834–1908) ac Elinor (1834–1907) Williams, y ddau'n enedigol o Ynys Môn. Addysgwyd ef yn Ysgol St Saviour, Downing Street, Everton, a mynychai ef a'i deulu gapel Cymraeg y Methodistiaid Calfinaidd yn Fitzclarence Street.

Gadawodd yr ysgol yn 13 oed, pan gafodd waith yn swyddfa John Thomas, brocer stociau, yn Sweeting Street. Bu hefyd yn swyddfa Dodd ac Oulton, cyn mynd i weithio at ei ewythredd, Thomas Brothers, Hornby Street. Gwelodd gyfle i wella'i hun yn y Sun Foundry gyda'r Meistri Smith yn Dale Street, a symudwyd ef yn fuan i brif swyddfa'r cwmni yn Glasgow.

Ymunodd yng ngweithgareddau Eglwys Bresbyteraidd Unedig Renfield Street, lle clywodd y Parchedig James Grey o Rajpunta, India, yn erfyn am genhadon ifainc. Ni wrandawodd ar yr apêl y funud honno, ond o fewn mis, yn ei lety yn Parson Street, derbyniodd y sialens. Mynegodd ei benderfyniad wrth ei weinidog, y Parchedig James Grierson Scott, a chafodd wersi Lladin elfennol yn y mans.

Symudodd yn ôl i Lerpwl ym mis Chwefror 1885 i swyddfa'i ewythr Henry Williams yn 10 Conyers Street, Kirkdale, a mynychu dosbarthiadau nos yn yr ieithoedd Lladin a Groeg ym Mount Pleasant. Derbyniwyd ef i Goleg Diwinyddol y Bala ym 1891 a bu am ychydig fisoedd yn Glasgow yn derbyn hyfforddiant meddygol. Ordeiniwyd ef yn weinidog gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 1893, a hwyliodd o ddinas ei febyd ar 23 Medi 1893 ar y *City of Corinth*.

Cyrhaeddodd ef a'i briod, Edith Ann Roberts (yn enedigol o Ruthun), oedd yn aelod yn Fitzclarence Street, borthladd Calcutta ar 24 Hydref. Rhoddwyd croeso da iddynt a'u cynorthwyo i deithio i Chatak, lle y derbyniodd y ddau gyfarwyddyd y cenhadwr J. Pengwern Jones. Aeth ef, ynghyd â Dr Edward Williams ac E. H. Williams a'i briod, i orsaf genhadol Sylhet, ac erbyn dechrau Tachwedd yr oedd y cenhadwr newydd yn Shella.

Bu ef a'i briod yn cenhadu ym mhentrefi Laitkynsew, Tynger, Lyngkom a Synnei, a chafwyd llwyddiant mawr o ganlyniad i'w hymdrechion yno. Bu'r ddau'n dystion i'r diwygiad crefyddol ar fryniau Casia a Jaintia. Roedd gan E. H. Williams gydymdeimlad mawr â syniadaeth Mudiad Keswick, a daeth ag ymroddiad y mudiad hwnnw i'r maes cenhadol ac yn arbennig i gyfarfodydd gweddi ym mhentrefi Laitkynsew, Mawphlang, Rangthong a Mawiang. Ar ôl y diwygiad bu'n gweinidogaethu yn Mawphlang a Jowai.

Yna, yn 1910, gosodwyd cyfrifoldeb Dosbarth eang Shangpung arno, lle bu'n arloeswr arbennig iawn. Ef oedd y cyntaf o blith y cenhadon Cymreig i arloesi yn yr ardal bellennig lle siaredid yr iaith Lyngngam. Anodd oedd cyrraedd yno gan fod peryglon mynych, ond nid gŵr i ofni her oedd y Cymro o Lerpwl. Gweithiodd yn egnïol ymhlith llwyth y Mikir, pobl gyntefig ond hael eu caredigrwydd. Gwendid amlwg llawer o drigolion pentrefi llwyth y Mikir oedd bwyta opiwm. Teithiodd E. H. Williams ar gefn merlyn i ganol pentrefi'r llwyth hwn a chynnig gwell gobaith iddynt. Er bod y pentrefi wedi eu lleoli yng nghanol coedwigoedd trwchus, ni fethodd y cenhadwr erioed â chyrraedd i'w plith a chynnig gobaith yr Efengyl iddynt. Bedyddiai'r plant a derbyniai unigolion o bob oedran i gymdeithas yr eglwys leol. Pregethai ag arddeliad yn y capeli oedd wedi eu hadeiladu, rhai o dan ei gyfarwyddyd ef, a chroesawai gyfle i annerch yn yr awyr agored drwy gymorth cyfieithydd o blith y Mikir. Hyfforddodd athrawon brodorol i wasanaethu'r pentrefi fel y byddai'r gwaith yn parhau ar ôl iddo ef adael y cylch.

Teithiodd E. H. Williams yn ddiflino ar hyd ei flynyddoedd maith yn yr ardal. Bu'n feddyg anghyffredin iawn, er mai byr fu cyfnod ei hyfforddiant. Disgrifiodd y cenhadwr Gwilym Angell Jones (1903–78) y rhan hon o'i waith yng nghylchgrawn *Y Cenhadwr*. Soniodd am y modd 'y llithrodd llawer o fabanod Khasia a Jaintia yn esmwyth i'r hen fyd yma drwy ei weinidogaeth ef a'i fag du'.

Bu farw ei briod yn ystod diwygiad crefyddol 1905, ac ailbriododd â Gertrude Mary Williams (1881–1929), cenhades yn Mawphlang. Roedd hi wedi mynd yno yn 1907 o'i chartref yn y Porth, Cwm Rhondda. Ganwyd iddynt bedwar o blant. Teithiai lawer gyda'i phriod, ac ar un o'r teithiau hyn yn 1928 fe gafodd ddamwain. Taflwyd hi i lawr llwybr mynyddig gan ruthr o wynt sydyn. Cafodd ei hanafu, a gadawodd yr ysgytwad hi'n fregus. Bu farw yn 1929 yn Ysbyty Shillong. Cyfarfu E. H. Williams â chenhades newydd yn Shillong, sef Annie Dorothy (Nancy) Williams (1908–99) o Lanarthne, sir Gaerfyrddin, a phriodwyd hwy yn 1936. Ganwyd iddynt fab a merch. Hwyliodd y ferch, Bethan Williams, allan i'r maes cenhadol ar 30 Medi 1966, un o'r rhai olaf o Gymru i fynd allan fel cenhades i Shillong.

Dychwelodd E. H. Williams ac Annie Nancy Williams i Gymru yn 1947. Roedd ef erbyn hynny wedi cyflawni cenhadaeth unigryw: wedi gwarchod pob Dosbarth o eglwysi cenhadol ar Fryniau Casia a Jaintia, wedi ysgwyddo pob cyfrifoldeb posibl fel cenhadwr ac wedi'i anwylo'i hun i genedlaethau o bobl am 55 mlynedd yng ngogledd-ddwyrain India. Ymddeolodd y teulu i ddinas Abertawe ac ymaelodi yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jerwsalem, Ravenhill. Balch oeddynt o'n croesawu i'w cartref a chofiaf yn dda alw i'w weld fel myfyriwr diwinyddol yn niwedd y pumdegau. Bu'r Parchedig E. H. Williams farw ar ôl hir oes hir a ffrwythlon ar 30 Medi 1962.

*Ffynonellau*:

J. Hughes Morris, *Hanes Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig hyd ddiwedd y flwyddyn 1904* (Caernarfon, 1907).


Ednyfed Thomas, *Bryniau'r Glaw: Cenhadaeth Casia* (Caernarfon, 1988).

Ei erthyglau niferus yn *Y Cenhadwr* a gwybodaeth bersonol.

*D. Ben Rees*

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 3. 'Adref i Fethlehem a theyrngarwch Ruth!' (Ruth 1:6–18)

Wrth inni gyrraedd adnod 6, mae Naomi wedi colli ei gŵr a'i dau fab ac yn penderfynu dychwelyd i Fethlehem. Wrth ddod i adnabod Naomi yma, mae'n rhesymol dod i'r casgliad nad oedd gadael Jwda am dir Moab yn benderfyniad oedd wrth fodd ei chalon o'r cychwyn. Eto, roedd wedi cytuno i symud, ond cytuno, o bosib, i fynd yno *dros dro* wnaeth Naomi. Mae dirnadaeth Naomi o'i sefyllfa a'i phenderfyniad wedyn i fynd adref yn seiliedig ar ffaith, nid mympwy. Y ffaith ydy ei bod yn mynd yn ôl at ei phobl, ond yn fwy at Dduw ei phobl a'i Duw hi. Yn ymarferol hefyd, mae Naomi wedi clywed bod, 'i'r ARGLWYDD ymweld â'i bobl a rhoi bwyd iddynt'. Mae'r Arglwydd yn ganolog i'w phenderfyniad. Eto, fedrai Naomi ddim dychmygu bod 'na lawenydd yn ei disgwyl gartref; dod adref yr oedd Naomi am mai dyna oedd y *peth iawn i'w wneud*, ac wrth ddod adref wynebu'r canlyniadau.

Wedi penderfynu cychwyn am Fethlehem, mae ei dwy ferch yng nghyfraith, Orpa a Ruth, yn ymuno hefo hi ar y daith. Roeddwn yn cyfeirio'r tro diwethaf at enwau'r dynion, a heddiw trown at enwau'r merched. Ystyr Naomi ydy 'daioni prydferth'; mae enw Orpa yn golygu 'elain', carw ifanc benywaidd, a Ruth yn golygu 'ffrind'.


Ond, wrth gychwyn ar y daith, cymell ei dwy ferch yng nghyfraith i aros yn Moab y mae Naomi, a dweud, 'a bydded yr ARGLWYDD mor garedig wrthych chwi ag y buoch chwi wrth y rhai a fu farw ac wrthyf finnau' (adn. 8). Mae'n arwyddocaol bod Naomi yma, wrth eu perswadio i aros ym Moab, yn defnyddio'r enw Hebraeg 'Yahweh' (Arglwydd), yn hytrach na defnyddio'r enw 'Chemosh', sef duw'r Moabiaid. Dymuniad calon Naomi ydy iddynt gael 'cartref gyda gŵr' (adn. 9). Wrth ddisgrifio'r ddwy, mae Naomi'n eu galw'n 'garedig'; y gair Hebraeg yma ydy 'chesedd', sy'n golygu cariad neu deyrngarwch ac sydd hefyd yn gallu golygu 'gras', gair y down i wybod ei ystyr yn gyflawn yn Iesu Grist.

Cariad at Naomi sy'n cymell y ddwy ferch i fynd ar y daith i Fethlehem, ond eu gwrthod wna'r fam yng nghyfraith a'u hannog i aros ym Moab. Eu gwrthod, gan gyflwyno'i hachos, braidd fel bargyfreithiwr wna Naomi. Hynny yw, doedd dim dyfodol ymarferol iddynt ym Methlehem (adn. 11–13).

Yn anfoddog iawn mae Orpa yn ffarwelio â Naomi, 'ond glynodd Ruth wrthi' (adn. 14). Mae'r 'glynu' yma'n amlwg yn Diarhebion 17:17: 'Y mae cyfaill yn gyfaill bob amser.' Mae adnodau 16 ac 17 yn cael eu hadnabod fel cerdd hyfryd o ymrwymiad Ruth i Naomi, a hynny wrth i'w ffyddlondeb droi'n ffydd. Ac wrth ddweud, 'fel hyn y gwnelo'r ARGLWYDD i mi', mae Ruth yn dangos ei hadnabyddiaeth bersonol ei hun erbyn hyn o Yahweh, adnabyddiaeth y mae Ruth wedi ei dysgu oddi wrth Naomi.

**Cwestiynau i'w trafod:**

1. 'Gwneud y peth iawn, am mai dyna'r unig ddewis i'r Cristion.' Trafodwch.
2. Sut mae 'gras' yn cael ei gyfleu yn adnod 8?
3. Fel Naomi i Ruth, pwy sydd wedi bod yn esiampl o ffydd i chi?







Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# O’r galon

## Ffrwyth yr Ysbryd fel cynnyrch gardd ein calon

‘Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth.’ (Galatiaid 5:22)

Oes gardd gennych acw? Ai lawnt a fawr ddim arall, ynteu borderi o lwyni a blodau ag ambell goeden? Neu falle gornel i’r llysiau a thŷ gwydr hefyd?

Mi fydd ein hateb yn adlewyrchu ein hadnoddau, ein diddordeb a’n gallu, mae’n siŵr. Gyda’r amrywiaeth hwn ynghyd â lleoliad, y pridd a’r tywydd, nid oes dwy ardd yn debyg. Felly mae hi hefyd gyda gardd calon pob un ohonom – gwahanol brofiadau, cymeriad ac amgylchiad yn dwyn ffrwyth amrywiol ym mhob un ohonom.

Wrth fynd i mewn i dymor yr hydref – y dyddiau’n byrhau a’r nosweithiau’n oeri, mae’r tyfiant a’r blodau’n pallu, ac fe all hyn dueddu i’n tristáu. Ond y gwir mewn gardd yw mai at y foment hon mae popeth wedi cydweithio, at y cynhaeaf a’i gynnyrch. Ac mae hyn yn wir, boed am flodau, llwyn a choed, gwair neu lysiau; mewn gwahanol ffyrdd cynhyrchir yr hyn sydd ei angen ar gyfer bywyd newydd y flwyddyn nesaf. Gelwir hyn yn ffrwyth, boed yn afal neu’n hedyn ar waelod parasiwt dant y llew, hanfod bywyd y planhigyn wedi ei baratoi i fynd ymaith ac amlhau.

‘Bendithiodd Duw hwy a dweud, “Byddwch ffrwythlon ac amlhewch … Yr wyf yn rhoi i chwi bob llysieuyn sy’n dwyn had ar wyneb y ddaear, a phob coeden â had yn ei ffrwyth; byddant yn fwyd i chwi.’ (Genesis 1:28–9)

Gorchmynnodd Duw dan ei fendith Adda ac Efa i fod yn ffrwythlon ac amlhau, ac yn danwydd i’w galluogi rhoddodd iddynt bob llysieuyn a ffrwyth. Falle y dwedwch mai stori yw hon, ond y gwir am y Beibl yw fod prif themâu ymwneud Duw â ni wedi eu hau ym mhenodau cyntaf y dechrau (Genesis). Ac felly sefydlir ar y cychwyn cyntaf y cysylltiad hanfodol rhwng ein ffyniant a’n lluosogi, gyda ffrwyth, ffrwyth y mae’n ei roi i ni. Ond, fel y gwelir yn Genesis 2, mae hefyd yn ganlyniad ein gofal a’n gwaith yn yr ardd. (‘Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y dyn a’i osod yng ngardd Eden, i’w thrin a’i chadw.’ Genesis 2:15)

Diwedd pennod 3, wrth gwrs, yw bwrw Adda ac Efa o’r ardd, i’r anialwch llawn drain ac ysgall, a’r gwaith yn troi’n llafur.

Mae Marc yn cyhoeddi dechrau gweinidogaeth Iesu fel un o gamu allan o’r anialwch yn cyhoeddi teyrnas Duw, yn ddarlun o adfer Eden yn ein plith. Mae Paul yn cymryd golwg gwahanol ar hyn wrth ysgrifennu at y Galatiaid. Ym mhennod 5:16–21 mae’n disgrifio’r drain ac ysgall fel cynnyrch chwantau’r cnawd ac yn eu galw yn *‘erga’* (gwaith neu lafur).

‘Y mae gweithredoedd y cnawd yn amlwg, sef puteindra, amhurdeb, anlladrwydd, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, cweryla, cynnen, eiddigedd, llidio, ymgiprys, rhwygo, ymbleidio, cenfigennu, meddwi, cyfeddach, a phethau tebyg. Yr wyf yn eich rhybuddio, fel y gwneuthum o’r blaen, na chaiff y rhai sy’n gwneud y fath bethau etifeddu teyrnas Dduw.’ (Galatiaid 5:19–21)

Nid bywyd yw canlyniad y gweithredoedd hyn.

Ond mewn cyferbyniad llwyr, os cawn ein harwain gan yr Ysbryd gyda gofal, a thrin ein chwantau ganddo, yna mae ein calon a’n bywyd yn cynhyrchu ffrwyth bywiol yr Ysbryd. Ffrwyth sy’n cynnwys yr hyn sydd eu hangen arnom i fod yn ffrwythlon ac amlhau ei deyrnas yn ein byd.

Fe edrychwn ar y ffrwythau hyn yn eu tro, ond dwi’n amau y byddai’n fuddiol meddwl hefyd sut mae’r ffrwyth yma’n cael ei gynhyrchu ynom. Yn y cyfamser myfyriwch, yn yr Ysbryd, ar y ffrwythau hyn gan ofyn iddo ddangos eich ffyniant a’ch methiant. (Rhag ofn na allwch aros, mae llawer o’r atebion i’w cael ym mhennod 5:24–6.)

*Hywel Rhys Edwards*

# Rhwyd y Brenin

Carwn eich hysbysu ein bod yn dechrau oedfa Gymraeg yng nghapel Emmanuel, Hwlffordd, ddydd Sul, 6 Hydref, am 3 o’r gloch y prynhawn. Byddwn yn cynnal yr oedfa ar y Sul cyntaf o’r mis i ddechrau. Gobeithio y byddwn yn gallu cyfarfod yn fwy cyson maes o law.

Ein gobaith a’n gweddi yw y bydd Duw’n agor drws i’r efengyl yn ein sir, gan feddwl yn arbennig am blant, pobl ifanc a rhieni o fewn dalgylch Ysgol Caer Elen, Hwlffordd. Byddwn yn hapus i groesawu unrhyw un i’r cyfarfodydd, yn enwedig dysgwyr a rhai sydd efallai wedi cael rhyw gysylltiad â chapel neu eglwys flynyddoedd yn ôl ond wedi diflasu, wedi cefnu neu wedi colli cysylltiad â’r capeli neu’r eglwysi.

Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn ein harwain wrth i ni wahodd, adeiladu pontydd, hysbysebu, gweddïo, cynllunio a cheisio gweld ble mae Duw eisoes ar waith yn y gymuned tu allan i furiau traddodiadol capeli ac eglwysi. Gweddïwn am ddoethineb a sensitifrwydd i gyffyrddiadau’r Ysbryd Glân wrth weld sut y gallwn wasanaethu’r gymuned o’n hamgylch yn enw Iesu.

Mae Rhwyd y Brenin yn brosiect cenhadol yn Hwlffordd, gyda chefnogaeth a nawdd Undeb Bedyddwyr Cymru ac rydym wedi cofrestru fel elusen gyda’r Comisiwn Elusennau.

*Geraint Morse*

**"Rhwyd y Brenin"**

Oedfa Gymraeg

Sul cyntaf y mis

am 3.00 y prynhawn

Capel Emmanuel Hwlffordd


87, Pembroke Road, SA61 1LN

Croeso cynnes i bawb.

"Adnabod Crist a'i gyflwyno i eraill."

Rhagor o fanylion - Geraint Morse 07805 617555

## Dathlu 70 mlynedd


EGLWYS Y BEDYDDWYR
Blaenycwm
Treherbert

CYNHELIR
Cyfarfodydd
Ordeinio
Mr. DENNIS YOUNG
DREFACH, LLANDYSUL
(O Goleg Bangor)

YN WEINIDOG AR YR EGLWYS UCHOD
Nos Fercher a Dydd Iau
Medi 29 a 30, 1954

Estynnir i chwi wahoddiad cynnes
*Darperir lluniaeth i ymwelwyr*

Dros yr Eglwys,
J. H. DAVIES,
*Ysgrifennydd*

66, Scott Street,
Treherbert

Llongyfarchiadau i'r Parchg Denis Young sy'n dathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio y mis hwn. Cofion cynnes a phob dymuniad da iddo. Diolch am ei wasanaeth ffyddlon dros gynifer o flynyddoedd.



S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 29 Medi am 7.30yh – R. S. Thomas**

Bydd Rhodri Gomer yn ymweld ag Aberdaron i ddathlu bywyd a gwaith y bardd a'r offeiriad R .S. Thomas, a dysgu mwy am ei ddyled i rai o'n hemynwyr enwocaf. Ymhlith y gwesteion bydd yr Athro M. Wynn Thomas, Nathan Munday a Gwenan Gibbard. A chawn fwynhau gwledd o gerddoriaeth a chanu mawl yng nghwmni Côr yr Heli.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 29 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Jim Clarke, Llanfair-pwll

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 29 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Huw Dylan, Llangwm

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol

(swydd dros dro yn ystod cyfnod absenoldeb mamolaeth)

**Lleoliad**: Cynigir patrwm gwaith hyblyg gyda chyfleon gweithio o gartref a bydd yn ofynnol i weithio ar draws Cymru.

**Pwrpas y Swydd**: I weithio mewn dau faes allweddol sef cenhadaeth a chyfathrebu digidol, i gefnogi, datblygu a gweithredu rhaglen strategol o genhadaeth ymysg Eglwysi a Chymanfaoedd a bod yn gyfrifol am gyfathrebu effeithiol, a chynorthwyo'r Undeb ac Eglwysi i ymgysylltu â chenhadaeth Duw mewn oes dechnolegol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gristion sy'n ymarfer y ffydd ac yn llwyr gefnogol i amcanion elusennol Undeb Bedyddwyr Cymru. Oherwydd natur y swydd, mae hyn yn Ofyniad Galwedigaethol Penodol. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.
* Mae'n bosib ystyried yr hyblygrwydd o rannu swydd neu o gyflawni un agwedd benodol o'r swydd.

**Cyflog: £31,039.60 – £32,985.95**

**Dyddiad cau: 7 Hydref 2024**
**Dyddiad cyfweld: 10 Hydref 2024**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Parch Simeon Baker – Cyfarwyddwr Cenhadaeth
Ffôn: 0345 222 1514 neu ebost: simeon@ubc.cymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru